| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 28 Mawrth 2023 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Cynghorydd Rhys Thomas - Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau / Angela Loftus - Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Emlyn Jones - Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **Awdur yr adroddiad** | Andrea Fisher - Prif Syrfëwr Prosiect Adeiledig |
| **Teitl** | Cyflwyno System Gaffael Ddeinamig ar gyfer Darparu Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i ddatblygu a chaffael System Gaffael Ddeinamig mewn perthynas â darparu Grantiau Gorfodol Cyfleusterau i Bobl Anabl yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Gontractau yng Nghyngor Sir Ddinbych. Bydd adroddiad pellach yn cael ei ddarparu ar ddiwedd y broses gaffael o ran gweithredu'r System Gaffael Ddeinamig.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Cynhaliwyd archwiliad ar y systemau caffael o fewn CSDd ac fe gafwyd canlyniad archwilio gwael. Hefyd nid yw caffael gwaith addasu yn cyd-fynd â Rheolau Gweithdrefn Gontractau CSDd.

2.2 Mae angen penderfyniad ar ddatblygiad a gweithrediad System Gaffael Ddeinamig mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir y Fflint (CSFf) i gaffael a darparu Grantiau Gorfodol Cyfleusterau i Bobl Anabl yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Gontractau. Mae eglurhad o'r System Gaffael Ddeinamig yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cabinet yn cymeradwyo datblygiad a gweithrediad System Gaffael Ddeinamig mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir y Fflint i ddarparu Grantiau Gorfodol Cyfleusterau i Bobl Anabl yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Gontractau.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 O dan *Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 Adrannau 19-24 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 3 Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002* mae'n ofyniad statudol i Awdurdodau Lleol ddarparu addasiadau, drwy Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl, i unigolion diamddiffyn i'w galluogi i fyw yn ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartref eu hunain.

4.2 Mae'r Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl sy'n seiliedig ar brawf modd ar gael i berchnogion tai preifat neu denantiaid rhent preifat, gyda chaniatâd Landlord, yn dilyn atgyfeiriad gan Therapydd Galwedigaethol.

4.3 Mae Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl yn ymdrin ag addasiadau canolig a mawr sy'n cynnwys darparu ramp mynediad i eiddo, lifft grisiau, cyfleusterau cawod wedi'u haddasu, lledu drysau, addasiadau strwythurol ac /neu estyniadau i hwyluso'r addasiadau.

4.4 Bydd unrhyw ddinesydd diamddiffyn sydd angen cymorth i aros yn annibynnol ac yn ddiogel yn eu heiddo yn cysylltu â Thîm Un Pwynt Mynediad Cyngor Sir Ddinbych. Bydd Therapydd Galwedigaethol yn asesu'r dinesydd i benderfynu lefel y gefnogaeth sydd ei hangen. Os bydd angen Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl, bydd y Therapydd Galwedigaethol yn penderfynu beth sy'n 'hanfodol ac yn briodol' yn eu cynllun gofal, sydd yna'n cael ei anfon at y Tîm Addasu a Gwella Tai er mwyn i'r swyddog achos dynodedig benderfynu beth sy'n 'hanfodol ac yn briodol' a /neu 'resymol ac ymarferol' o safbwynt technegol. Mae'r swyddog achos yn llunio cynllun gwaith, yn derbyn dyfynbrisiau gan gontractwyr dibynadwy o restr contractwyr cymeradwy'r Tîm Addasu a Gwella Tai ac yn sicrhau bod yr holl waith yn cael ei gyflawni yn unol â'r Cynllun Gofal ac yn cael eu cwblhau'n brydlon - yn unol â Safonau Gwasanaeth Addasu Tai Llywodraeth Cymru.

4.5 O dan y system bresennol mae rhestr gymeradwy o gontractwyr adeiladu cyffredinol (yn meddu ar amrywiaeth o sgiliau). Mae cynllun gwaith yn cael ei gyflwyno i 3-4 o gontractwyr i'w prisio ac, ar ôl asesu'r tendrau, mae'r cynigiwr llwyddiannus yn derbyn y contract. Er bod y system yn gweithio'n dda nid yw'n cyd-fynd â rheolau gweithdrefn gontractau CSDd ac felly mae angen ei diwygio.

4.6 Mae System Gaffael Ddeinamig yn debyg i restr gymeradwy ond yn cael ei gweithredu fel proses gwbl electronig, a bydd yn agored drwy gydol cyfnod dilysu'r system brynu i unrhyw gwmni sy'n bodloni'r meini prawf dethol.

4.7 Bydd gweithredu System Gaffael Ddeinamig mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint yn caniatáu i'r ddau awdurdod lleol ddarparu'r Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl ar draws y ffin drwy drawstoriad da o gontractwyr cymwys gan alluogi dinasyddion diamddiffyn i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Bydd darparu Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl yn cyfrannu at y themâu canlynol o'r cynllun corfforaethol:

- Sir Ddinbych gyda thai o ansawdd sy'n diwallu anghenion pobl - drwy sicrhau fod tai yn cael eu haddasu i fodloni anghenion pobl ddiamddiffyn, a'u helpu i fyw bywydau annibynnol mewn llety priodol am gyn hired â phosibl.
- Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus - drwy alluogi pobl i fyw yn ddiogel ac yn annibynnol.
- Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal - drwy gefnogi pobl ddiamddiffyn i fyw'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain
- Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad - drwy wella ein system gaffael.

Bydd y penderfyniad hwn yn gwneud cyfraniad niwtral at darged y Cyngor i ddod yn sefydliad ecolegol gadarnhaol a di-garbon net erbyn 2030.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Ar hyn o bryd mae dyraniad cyfalaf o £1.5M y flwyddyn ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl. Mae'r dyraniad llawn yn cael ei ymrwymo bob blwyddyn ond gan fod y gwaith sy'n ofynnol o dan Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl yn adweithiol, ni ellir eu rhannu ymhellach, ond mae'r costau'n cael eu rheoli'n agos.

6.2 Ni fydd angen unrhyw adnoddau ychwanegol o ran staffio ac ati.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid yw'r Asesiad o Effaith ar Les wedi'i gyflawni ar y cam hwn gan nad yw'r ymarfer yn newid i'r polisi ond yn newid i ddarpariaeth y polisi. Mae Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl yn swyddogaeth statudol ac yn ceisio darparu addasiadau i gartrefi dinasyddion anabl i ddiwallu anghenion presennol ac yn y dyfodol - i'w galluogi i fyw yn ddiogel ac mor annibynnol â phosibl yn eu cartrefi eu hunain am gyn hired â phosibl a lleihau eu dibyniaeth ar y GIG. Bydd y System Gaffael Ddeinamig arfaethedig yn caniatáu cyflogi Busnesau Bach a Chanolig lleol i ddarparu'r addasiadau gan roi sylw dyledus i newid hinsawdd drwy sicrhau bod caffael y deunyddiau yn cael yr effaith leiaf posibl ar yr amgylchedd.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni chynhaliwyd ymgynghoriadau eto gan fod hyn yn newid i weithdrefn weithredol yn hytrach na pholisi.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Ymddengys bod yr adroddiad yn cyflwyno cynllun ar gyfer caffael effeithiol ac effeithlon yn y maes. Fel y nodir yn adran 6, byddai angen cadw'r gwariant gwirioneddol o fewn y terfynau gwario cymeradwy.

## 10. Beth yw'r risgiau ac a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i'w lleihau?

10.1. Os nad yw gweithdrefnau caffael yn cael eu diwygio yna gallai Cyngor Sir Ddinbych dorri ymrwymiadau statudol yn unol â Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac

Adfywio 1996, Adrannau 19-24 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 3 Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002.

10.2. Ni fyddai modd i ni gyfrannu at gyflawni thema gorfforaethol Cyngor Sir Ddinbych - 'Sir Ddinbych gyda thai o ansawdd sy'n diwallu anghenion pobl'.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae gofyn i'r Cabinet awdurdodi dechrau'r weithdrefn gaffael yn unol ag adran 2.7.2 iii Rheolau Gweithdrefn Gontractau'r Cyngor.

11.2. Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 Adrannau 19-24 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 3 Gorchymyn Diwygio Rheolaethol (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002.

11.3. Mae gan y Cyngor hefyd bwerau i ymrwymo i gontractau yn unol ag adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (pŵer i ymgymryd ag unrhyw weithred i hwyluso, neu sydd yn ffafriol neu sy'n digwydd o ganlyniad i, gyflawniad unrhyw rai o'u swyddogaethau); adran 135 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (pŵer i wneud rheolau sefydlog i lywodraethu llunio contractau), adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (pŵer i benodi hynny o swyddogion ag y maent yn ei ystyried yn angenrheidiol i gyflawni swyddogaethau'r cyngor yn gywir); adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol 1999 (dyletswydd gyffredinol ar awdurdod gwerth gorau i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus o ran y ffordd mae ei swyddogaethau'n cael eu cyflawni).